
OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 No. 684

**Rheoliadau Taliadau Gwasanaeth
(Gofynion Ymgynghori) (Cymru) 2004**

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “adran 20” (“*section 20*”) yw adran 20 (cyfyngu ar daliadau gwasanaeth: gofynion ymgynghori) o Ddeddf 1985;

ystyr “adran 20ZA” (“*section 20ZA*”) yw adran 20ZA (gofynion ymgynghori: atodol) o'r Ddeddf honno;

ystyr “cyfnod perthnasol” (“*relevant period*”), mewn perthynas â hysbysiad, yw'r cyfnod o 30 diwrnod yn cychwyn ar ddyddiad yr hysbysiad;

ystyr “Deddf 1985” (“*the 1985 Act*”) yw Deddf Landlord a Tenant 1985(1);

ystyr “hysbysiad cyhoeddus” (“*public notice*”) yw hysbysiad a gyhoeddir yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd yn unol â Rheoliadau Contractau Gwaith Cyhoeddus 1991(2), Rheoliadau Contractau Gwasanaethau Cyhoeddus 1993(3) neu Reoliadau Contractau Cyflenwad Cyhoeddus 1995(4);

ystyr “materion perthnasol” (“*relevant matters*”), mewn perthynas â chytundeb a gynigir, yw'r nwyddau neu'r gwasanaethau sydd i'w darparu neu'r gwaith sydd i'w gyflawni (yn ôl y digwydd) o dan y cytundeb;

ystyr “person a enwebwyd” (“*nominated person*”) yw person y cynigir ei enw mewn ymateb i wahoddiad a wneir fel y crybwyllir ym mharagraff 1(3) o Atodlen 1 neu baragraff 1(3) o Ran 2 o Atodlen 4; ac ystyr “enwebiad” (“*nomination*”) yw unrhyw gynnig o'r fath;

ystyr “perthynas agos” (“*close relative*”), mewn perthynas â pherson, yw priod neu un sy'n cyd-fyw â'r person hwnnw, rhiant, rhiant-yng-nghyfraith, mab, mab-yng-nghyfraith, merch, merch-yng-nghyfraith, brawd, brawd-yng-nghyfraith, chwaer, chwaer-yng-nghyfraith, llysrant, llysfab neu lysferch y person hwnnw;

ystyr “tenant RTB” (“*RTB tenant*”), mewn perthynas â landlord, yw person sydd wedi mynd yn denant i'r landlord yn rhinwedd adran 138 o Ddeddf Tai 1985(5) (dyletswydd landlord i drosglwyddo rhydd-ddaliad neu roi les), adran 171A o'r Ddeddf honno (achosion lle y cadwyd yr hawl i brynu), neu adran 16 o Ddeddf Tai 1996(6) (hawl tenant i gaffael annedd)(7) o dan brydles y mae ei thelerau'n cynnwys gofyniad bod y tenant yn ysgwyddo rhan resymol o'r costau hynny a dynnir gan y landlord ac y sonnir amdanynt ym mharagraffau 16A i 16D o

(1) 1985 p. 70.

(2) O.S. 1991/2680, y mae iddo ddiwygiadau nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(3) O.S. 1993/3228, y mae iddo ddiwygiadau nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(4) O.S. 1995/201, y mae iddo ddiwygiadau nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(5) 1985 p.68.

(6) 1996 p.52.

(7) Cymhwysir adran 138 o Ddeddf Tai 1985 (p. 68) mewn perthynas ag adran 171A gan adran 171C. Mewnosodwyd adrannau 171A and 171C gan Ddeddf Tai a Chynllunio 1986 (p. 63), adran 8. *Gweler hefyd* Orchymyn Tai (Estyn yr Hawl i Brynu) 1993 (O.S. 1993/2240) a Rheoliadau Tai (Cadw'r Hawl i Brynu) 1993 (O.S.1993/2241). Cymhwysir adran 138 mewn perthynas ag adran 16 o Ddeddf Tai 1996 (p. 52) gan adran 17 o'r Ddeddf honno. *Gweler hefyd* Reoliadau Tai (Hawl i Gaffael) 1997 (O.S. 1997/619).

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

Atodlen 6 i'r Ddeddf honno (taliadau gwasanaeth a chyfraniadau eraill sy'n daladwy gan y tenant)(8);

ystyr "tenantiaeth RTB" ("RTB tenancy") yw tenantiaeth tenant RTB;

ystyr "un sy'n cyd-fyw" ("cohabitee"), mewn perthynas â pherson, yw—

- (a) person o'r rhyw arall sy'n byw gyda'r person hwnnw fel pe bai'n wŷr neu'n wraig iddo; neu
- (b) person o'r un rhyw sy'n byw gyda'r person hwnnw mewn perthynas y mae iddi'r un nodweddion ag sydd i'r berthynas rhwng gŵr a gwraig;

(2) At ddibenion unrhyw amcangyfrif sydd i'w roi gan y landlord ac y mae unrhyw un o ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn yn ei wneud yn ofynnol—

- (a) cynhwysir treth ar werth lle y bo'n gymwys; a
- (b) pan fo a wnelo'r amcangyfrif â chytundeb a gynigir, tybied mai dim ond gyda threigl amser y bydd y cytundeb yn dod i ben.

(8) Gweler hefyd adran 139 a Rhannau 1 and 3 o Atodlen 6 i Ddeddf Tai 1985. Mewnosodwyd paragraffau 16A i 16D yn Rhan 3 o Atodlen 6 gan Ddeddf Tai a Chynllunio 1986 (p.63), adran 4(4).